**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Eluned Morgan AC
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

6 Mehefin 2019

Annwyl Eluned

**Y Bil Masnach – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3)**

Rwy'n ysgrifennu atoch i geisio eglurhad ar bwynt a godwyd yn ystod y ddadl a gynhaliwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Mai 2019 ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Masnach.

Yn ystod y ddadl honno, dywedasoch fod y gwelliannau diweddaraf a wnaed i'r Bil (sef y gwelliannau a oedd yn golygu bod angen y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol) i bob pwrpas yn ehangu'r pwerau datganoledig o dan y Bil. Wrth i chi drafod y mater gyda Dai Lloyd AC, ymddengys eich bod wedi awgrymu mai pwerau deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol yn unig sydd wedi'u hehangu, ac nid pwerau Gweinidogion Cymru yn ogystal. Mae ein dealltwriaeth o'r sefyllfa wedi'i nodi isod.

O dan Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006), ni all y Cynulliad Cenedlaethol ddileu neu addasu "swyddogaethau datganoledig cymwys" heb gydsyniad Llywodraeth y DU. Roedd rhai o bwerau is-ddeddfwriaethol Gweinidogion Cymru a oedd yn y Bil Masnach cyn iddo gael ei ddiwygio yn gyfystyr â swyddogaethau datganoledig cymwys.

Yn sgil y gwelliannau a wnaed i'r Bil, mae llai o swyddogaethau datganoledig cymwys, sy'n golygu mwy o bwerau i'r Cynulliad. Ar yr un pryd, mae'r gofyniad i Weinidogion Cymru ymgynghori â Llywodraeth y DU wedi'i ddileu yn yr achosion hynny lle gellid cyflawni'r un peth drwy reoliadau o dan Ddeddf neu Fesur y Cynulliad heb yr angen i ymgynghori.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Yn ein barn ni, felly, ymddengys bod y gwelliannau a wnaed i'r Bil yn ehangu pŵer y Cynulliad (gan fod llai o swyddogaethau datganoledig cymwys yn ei gyfyngu) ac yn rhoi mwy o ryddid i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil Masnach.

Nodwn fod paragraff 12 o Femorandwm Rhif 3 yn datgan:

> "Mae'r gwelliant yn addasu ystyr 'is-ddeddfwriaeth'. Felly, pan gaiff y term hwn ei ddefnyddio yn y Bil, mae bellach yn cynnwys is-ddeddfwriaeth a wnaed dan Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad. Un o effeithiau'r addasiad hwn yw ei fod yn datgymhwyso'r gofyniad i ymgynghori â Llywodraeth y DU cyn gwneud rheoliadau dan y Bil Masnach os gallai Gweinidogion Cymru wneud yr un peth drwy reoliadau dan Ddeddf neu Fesur y Cynulliad heb yr angen i ymgynghori â Llywodraeth y DU (a siarad yn fras). Mae hyn yn ehangu'r pwerau datganoledig dan y Bil. Ystyriwn y gwelliant hwn i fod o fewn cymhwysedd. Gan mai effaith y gwelliant yw ehangu pwerau Gweinidogion Cymru, ystyriwn nad yw'r Cynulliad wedi cydsynio i'r gwelliant hwn yn ei gydsyniad gwreiddiol."

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn gallu rhoi eglurder ar y mater hwn, a byddwn yn croesawu ymateb gennych cyn gynted â phosibl.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.